# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

## RHAN 4

CYMWYSTERAU BLAENORIAETHOL A CHYMERADWYO CYMWYSTERAU

*Meini prawf cymeradwyo*

### 20 Meini prawf cymeradwyo

(1) Rhaid i Gymwysterau Cymru osod a chyhoeddi meini prawf i’w cymhwyso ganddo wrth benderfynu pa un ai i gymeradwyo ffurf ar gymhwyster o dan y Rhan hon.

(2) Caiff y meini prawf wneud darpariaeth wahanol drwy gyfeirio at gymwysterau gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o gymhwyster.

(3) Caiff Cymwysterau Cymru ddiwygio’r meini prawf.

(4) Os yw Cymwysterau Cymru yn diwygio’r meini prawf, rhaid iddo gyhoeddi’r meini prawf fel y’u diwygiwyd.